**From:** **edwvalleydesigns** info@edwvalleydesigns.co.uk
**Subject:**
**Date:** 13 August 2020 at 11:11
**To:**




**Ffigyrau Covid-19**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi bod saith achos newydd o'r coronafeirws wedi'u cadarnhau yng Nghymru, gan ddod â chyfanswm yr achosion i 15,900 a dim un achos newydd ym Mhowys. Cyfanswm yr achosion yn y sir yw 302, er mae'r ffigwr hwnnw'n debygol o fod yn llawer uwch.

Yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar nifer y rhai fu farw ym Mhowys o ganlyniad i'r COVID-19 neu'n rhannol ar 26 Mehefin oedd 92 **–** 46 mewn cartrefi gofal, 37 mewn ysbytai a naw gartref – dim cynnydd ar y ffigyrau blaenorol.
Nid oedd unrhyw achosion positif wedi'u dynodi gan Dîm Olrhain Cysylltiadau Powys ddoe.

Mae'r Gweinidog Iechyd, Vaughan Gething, wedi dileu'r £470m sy'n ddyledus gan gyrff GIG Cymru fel y gallan nhw ganolbwyntio ar adfer o bandemig COVID-19 https://llyw.cymru/dileu-dyled-gwerth-ps470m-cyrff-gig-cymru-i-helpu-i-baratoi-adfer-o-argyfwng-covid-19

Cyhoeddodd hefyd y bydd ymgynghoriadau fideo yn cael eu hymestyn i bractisau deintyddol, i optegwyr ac i fferyllfeydd cymunedol. Daw hyn ar ôl cyflwyno'r gwasanaeth yn llwyddiannus mewn gofal sylfaenol a gofal eilaidd yn ystod y pandemig coronafeirws. https://llyw.cymru/ymestyn-ymgyngoriadau-fideo-i-wasanaethau-fferylliaeth-optometreg-deintyddiaeth-yng-nghymru

Mae fforwm adeiladu newydd â'r nod o helpu Cymru i ailgodi'n gryfach yn dilyn y pandemig coronafeirws yn cwrdd am y tro cyntaf heddiw https://llyw.cymru/fforwm-adeiladu-ar-nod-o-ailgodin-gryfach

Diweddariad am raglenni imiwneiddio yng Nghymru yn ystod y coronafeirwshttps://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-diweddaraf-am-raglenni-imiwneiddio-ers-mis-mawrth-2020

Mae cynllun grant gwerth o leiaf £4m wedi cael ei lansio heddiw er mwyn helpu i wella safleoedd o arwyddocâd naturiol ledled Cymru, gan gefnogi rheolwyr tir, elusennau a chymunedau i fwrw ymlaen â'u gwaith hanfodol a chyfrannu at adferiad y genedl o Covid-19. https://llyw.cymru/ps4m-ar-gael-i-safleoedd-natura-2000-i-helpu-cymru-i-warchod-cynefinoedd-hanfodol-rhywogaethau-dan

Canllawiau i awdurdodau lleol a mannau addoli ar weinyddu priodasau a ffurfio partneriaethau sifil. https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weinyddu-priodasau-ffurfio-partneriaethau-sifil-coronafeirws

-______________________________

- Rheoliadau coronafeirws - cwestiynau cyffredin
- Cwestiynau cyson ar addysg bellach ac uwch
- Datganiad ysgrifenedig: Cyfarpar Diogelu Personol
- Cwestiynau cyson ar rôl ysgolion dros y pandemig.

Mwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru - https://gov.wales/coronafeirws

**Am gamau blaenorol ewch i:**https://cy.powys.gov.uk/coronafeirws/camauallweddol

**Covid-19 figures**

Public Health Wales has reported a further seven new confirmed cases of coronavirus in Wales, bringing the total number of cases to 15,900, with no new cases in Powys, the total for the county stands at 302 cases although the figure is likely to be much higher.

Figures issued by the Office of National Statistics (ONS) on the number of deaths in Powys attributed, either wholly or in part to COVID-19, as at June 26 was 92 – 46 in care homes, 37 in hospital and nine at home – no increase on previous figure.
There were no positive cases identified for the Powys Contact Tracing team yesterday.

Health Minister, Vaughan Gething, has written-off the £470m owed by NHS organisations in Wales so they can focus on recovering from the COVID-19 pandemic https://gov.wales/nhs-wales-organisations-ps470m-debt-written-help-prepare-covid-19-recovery

He also announced that video consultation services will be extended to dental practices, opticians and community pharmacies. This follows the successful roll-out of the service in primary care, community and secondary care during the coronavirus pandemic https://gov.wales/video-consultation-extended-pharmacy-optometry-and-dentistry-wales

A new construction forum to help Wales build back better from the coronavirus pandemic met for the first time today https://gov.wales/construction-forum-aims-build-back-better

Update about immunisation programmes in Wales during coronavirushttps://gov.wales/written-statement-update-immunisation-programmes-march-2020

A grant scheme of at least £4m has been launched today to help improve sites of natural significance around Wales, supporting land managers, charities and communities to take forward their vital work and contribute to the nation's recovery from Covid-19 https://gov.wales/ps4m-available-natura-2000-sites-help-wales-protect-vital-habitats-and-threatened-species

Guidance for local authorities and places of worship on solemnisation of marriages and the forming of civil partnershipshttps://gov.wales/guidance-marriages-and-civil-partnerships-coronavirus

-______________________________

- Coronavirus regulations: frequently asked questions
- FAQs for higher and further education
- Written statement on the availability of PPE
- FAQs on the role of schools during the coronavirus pandemic.

More information from Welsh Government - https://gov.wales/coronavirus

**For previous actions visit:**https://en.powys.gov.uk/coronavirus/pcckeyactions

Mae'r e bost hwn ac unrhyw atodiad iddo yn gyfrinachol ac fe'i bwriedir ar gyfer y sawl a enwir arno yn unig. Gall gynnwys gwybodaeth freintiedig. Os yw wedi eich cyrraedd trwy gamgymeriad ni ellwch ei gopio, ei ddosbarthu na'i ddangos i unrhyw un arall a dylech gysylltu gyda Cyngor Sir Powys ar unwaith. Mae unrhyw gynnwys nad yw'n ymwneud gyda busnes swyddogol Cyngor Sir Powys yn bersonol i'r awdur ac nid yw'n awdurdodedig gan y Cyngor.

This e mail and any attachments are confidential and intended for the named recipient only. The content may contain privileged information. If it has reached you by mistake, you should not copy, distribute or show the content to anyone but should contact Powys County Council at once. Any content that is not pertinent to Powys County Council business is personal to the author, and is not necessarily the view of the Council.